CYMRU'N COFIO
WALES REMEMBERS
1914 - 1918

# RHAGLEN 2014



# Rhagair



## Prif Weinidog Cymru Carwyn Jones

Bydd y cyfnod coffáu yn gyfle i feddwl sut y gallwn ni ddod i ddeall yn well ein lle yn y byd a sut y gallwn weithio'n galetach i hyrwyddo goddefgarwch a dulliau o ddatrys anghydfodau mewn modd heddychlon.

Ar 4 Awst, byddaf i, ynghyd ag arweinwyr eraill o'r Gymanwlad, yn mynd i wasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Glasgow i nodi dechrau cyfnod o gynnal digwyddiadau coffáu yn y Deyrnas Unedig. Yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw, byddaf yn arwain gwasanaeth coffa cenedlaethol yn Eglwys Gadeiriol Llandaf.

Bydd y gwasanaethau hyn yn gosod cywair ar gyfer y pedair blynedd nesaf, wrth i grwpiau cymunedol, ysgolion, mudiadau cenedlaethol ac unigolion gymryd rhan mewn gweithgareddau coffáu. Nid dathlu y byddwn, ond yn hytrach cydnabod maint yr aberth a'r hyn a gostiodd yn nhermau bywydau pobl. Byddwn hefyd yn mynd ati i ddeall sut yr effeithiodd y Rhyfel Byd Cyntaf ar Gymru fel cenedl.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi nifer o fentrau. Caiff ysgolion uwchradd wneud cais am arian i dalu am brosiectau myfyrwyr ac rydym yn cefnogi Gŵyl Gregynog y mae ei rhaglen gyffrous yn rhoi llwyfan i gerddoriaeth gan ffoaduriaid o Wlad Belg a Fflandrys. Rydym wedi rhoi arian ar gyfer codi cofeb i'r holl bobl o Gymru a gymerodd ran yn y rhyfel yn Langemark, Gwlad Belg, ac i adnewyddu'r gofeb i ddynion yr Adran 38 (Gymreig) yng Nghoed Mametz.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys erthyglau sy'n rhoi manylion rhai o'r digwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal yn ystod 2014 ynghyd â rhestr o'r gweithgareddau a gynhelir ledled Cymru. Bydd digon o gyfle felly i gofio a choffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.



## Syr Deian Hopkin, Cynghorydd Arbennigol y Prif Weinidog ar y Rhyfel Byd Cyntaf

Mae 4 Awst 2014, canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, yn prysur agosáu. Mae llawer o weithgareddau coffa, prosiectau diwylliannol a chymunedol eisoes ar y gweill, mae pecynnau addysgol yn cael eu paratoi a'r rhaglen ddigideiddio enfawr yn brasgamu yn ei blaen. O ganlyniad i'r sylw mawr yn y wasg, mae yna ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith y cyhoedd o'r bwriad i goffáu'r rhyfel ac mae'r ddadl hanesyddol mor fywiog ag erioed.

Ledled y byd, fodd bynnag, mae yna wahanol safbwyntiau ynghylch y rhyfel, fel y mae arolwg diweddar gan y Cyngor Prydeinig wedi'i ddatgelu. Roedd hwn yn rhyfel byd-eang, nid rhyfel Ffrynt y Gorllewin yn unig. Faint o bobl sy'n sylweddoli faint o Brydeinwyr, a Chymry yn wir, gymerodd ran mewn ymgyrchoedd mor bell i ffwrdd â Thwrci, Palesteina, Mesopotamia, y Dwyrain Pell ac Affrica, yn ogystal â'r brwydro fu ar y môr? O'r cychwyn cyntaf, nod rhaglen Cymru yw coffáu'r sbectrwm ehangaf o elfennau, o'r milwrol a'r gwleidyddol i'r diwylliannol a'r crefyddol, gyda phwyslais cryf ar y dimensiwn rhyngwladol. Os oedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn ffrwyth ynysu a chystadleuaeth ryngwladol, gall y coffáu fod yn sail ar gyfer partneriaeth ryngwladol newydd hirdymor ac yn waddol addysgol gynaliadwy.

# Cynnwys








## Coed Mametz 04

Mae Philip Davies, Ysgrifennydd Cangen De Cymru o Gymdeithas Ffrynt y Gorllewin, yn amlinellu'r paratoadau i goffáu un o'r brwydrau pwysicaf a oedd yn cynnwys nifer fawr o filwyr o Gymru.

## Helpu Cymru i goffáu'r canmlwyddiant 06

Bydd canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yn garreg filltir o bwys yn hanes Cymru, ac mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi ymrwymo i amlygu ei bwysigrwydd, fel yr esbonia Stephen Barlow.

## Atgofion Llanidloes 08

Mae grŵp cymunedol yn Llanidloes, Powys, wrthi'n gweithio ar brosiect a fydd yn adfer y cof am filwyr o'r ardal a fu farw yn y rhyfel, y mae eu henwau ar gofebau rhyfel lleol.

## Gŵyl Gregynog 2014 Rhyfel 09

Cafodd Gŵyl Gregynog, sef gŵyl cerddoriaeth glasurol hynaf Cymru, ei sefydlu yn 1933 gan Gwendoline a Margaret Davies.

## Cofeb Gymreig yn Fflandrys 10

Peter Carter Jones, cydlynydd yr ymgyrch dros gael cofeb yn Fflandrys, sy'n disgrifio'r cynnydd a wnaed mor belled a'r cynlluniau ar gyfer y dadorchuddio.

## Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r profiad Cymreig 12

Yn ôl Lorna Hughes, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi bod yn arwain prosiect cydweithredol i ddatblygu Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r profiad Cymreig.

## Amgueddfa Cymru - National Museum Wales 14

Mae gan saith amgueddfa genedlaethol Cymru lawer o straeon i'w hadrodd ar sail y deunyddiau, y gwrthrychau, y ffotograffau a'r deunydd archifol arall sydd ganddynt eisoes.

## Sut y gallwch gymryd rhan 16

Gallwch chwarae rhan mewn amryw ffyrdd yn y digwyddiadau a gynhelir i goffáu'r canmlwyddiant yng Nghymru, o ymuno â ni ar Facebook i wneud cais am gyllid er mwyn adfer eich cofeb ryfel leol.

## Digwyddiadau 18

Rhestr o ddigwyddiadau ar gyfer 2014.


(clawr blaen) 8fed Bataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn cyrraedd gorsaf drenau'r Bala yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru.

(uchod ar y chwith) *The Welsh at Mametz Wood*, paentiad olew gan yr arlunydd Cymreig Christopher Williams (1873 - 1934). © Amgueddfa Cymru.

(uchod yn y canol) Menywod ym Myddin y Tir yn gweithio ar y cynhaeaf ŷd ym Mhowys, 1918. Trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru.

(uchod ar y dde) Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn helpu Prifysgol Caerdydd i ddigideiddio cartwnau J. M. Staniforth yn ystod y rhyfel. Cafodd y cartŵn hwn ei gyhoeddi yn y Western Mail ar 14 Awst 1914. Trwy garedigrwydd Prifysgol Caerdydd.

WG20509 Hawlfraint y Goron 2014



# Coed Mametz

**Mae Philip Davies, Ysgrifennydd Cangen De Cymru o Gymdeithas Ffrynt y Gorllewin, yn amlinellu'r paratoadau i goffáu un o'r brwydrau pwysicaf a oedd yn cynnwys nifer fawr o filwyr o Gymru.**

*The Welsh at Mametz Wood* paentiad olew gan yr arlunydd Cymreig Christopher Williams (1873-1934) © Amgueddfa Cymru.

**Yn ystod 2014, mae Cangen De Cymru o Gymdeithas Ffrynt y Gorllewin wedi ymrwymo i sicrhau bod Cofeb i'r 38ain Adran (Gymreig) yng Nghoed Mametz yn cael ei hadnewyddu ac yn edrych ar ei gorau ar gyfer digwyddiadau coffáu'r canmlwyddiant. Mae gweithgareddau codi arian ar y gweill, a chafwyd newyddion ardderchog yn ddiweddar.**

Mewn partneriaeth â Chomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad, mae grisiau newydd wedi'u gosod yn lle'r grisiau peryglus a arferai fod yn un ffordd o gyrraedd y gofeb.

## Adnewyddu'r Ddraig

Mae ail gam y gwaith adnewyddu, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, wedi ei gwblhau. Symudwyd y Ddraig gan Gomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad, ac fe'i chludwyd i weithdai'r Comisiwn yn Ypres lle y cafodd ei glanhau, ei hadnewyddu a'i hailbaentio'n unol â chyfarwyddiadau'r cerflunydd, David Petersen. Mae'r Ddraig bellach yn ôl yn ei lle yn barod ar gyfer coffâd y Canmlwyddiant.

Mae'r Gangen hefyd yn cydweithio'n agos iawn â Maer a Chomiwn Mametz, sydd wedi talu am wella'r ffordd sy'n arwain i'r gofeb o gyfeiriad Mametz a gwella'r cylch troi. Yn ystod 2014, bydd y lôn sy'n arwain o'r gofeb i Fynwent Flatiron Copse, lle mae llawer o'r milwyr a laddwyd yng Nghoed Mametz wedi'u claddu, yn cael ei hatgyweirio hefyd, a bydd arwyddion newydd yn cael eu gosod ar y ffordd sy'n arwain i'r safle o gyfeiriad Bazentin. Bydd hynny'n ei gwneud yn bosibl dehongli'r safle fel un lleoliad coffáu.

Bydd y trydydd cam yn cynnwys gwaith ailblannu a thirlunio. Bydd y gwaith hwnnw'n cael ei gyflawni gan Gomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad a'r gymuned leol, a bydd yn digwydd yn ystod gwanwyn 2014. Rydym yn gobeithio cwblhau'r gwaith hwnnw drwy blannu cennin Pedr ar y safle. Ym mis Gorffennaf, bydd Graham Corgan yn mynd ar daith gerdded noddedig ar hyd blaen y gad i filwyr Prydain, o Ypres i Amiens. Bydd yn ymweld â'r gofeb i'r 38ain Adran (Gymreig) yn rhan o'i bererindod, a'r gobaith yw y bydd modd cyfarfod ag ef ym Mametz ar 29 Gorffennaf 2014 a chynnig cefnogaeth ac anogaeth iddo.

## Digwyddiad coffáu yn 2016

Mae gwaith cynllunio newydd ddechrau ar gyfer digwyddiad coffáu yng Nghoed Mametz ym mis Gorffennaf 2016. Gobeithir

y bydd y digwyddiad yn cynnwys pentrefwyr Mametz, gan gynnwys y plant, yn ogystal â'r Lluoedd Arfog, teuluoedd cyn-filwyr ac arweinwyr cymunedol. Mae'r dyddiad wedi'i drefnu, sef 7 Gorffennaf 2016, er mwyn coffáu dechrau'r frwydr i gipio'r goedwig, a barodd am chwe diwrnod.

Yn rhan o ymdrechion Cangen De Cymru o Gymdeithas Ffrynt y Gorllewin i goffáu'r canmlwyddiant, bydd y Gangen yn creu cyfres o lyfrynnau – un ar gyfer pob blwyddyn o'r rhyfel. Bydd pob llyfryn yn clustnodi tudalen y dydd ar gyfer bywgraffiad byr o filwr o Gymru a fu farw ar y diwrnod hwnnw. Bydd y milwyr a gaiff eu cynnwys yn cynrychioli pawb a wasanaethodd mewn amryw agweddau ar y gwasanaethau milwrol neu ar fywyd gartref ac ar holl feysydd y gad, ac rydym wrthi'n gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru ac yn chwilio am atgofion teuluoedd unigol. Bydd y canlyniadau'n cael eu cynnwys maes o law mewn cronfa ddata a fydd ar gael i unrhyw un sy'n awyddus i astudio'r hyn a ddigwyddodd ganrif yn ôl.



## 'Mae'r Ddraig bellach yn ôl yn ei lle yn barod ar gyfer coffâd y Canmlwyddiant'



(uchod, chwith i'r dde) Llun o'r seremoni wreiddiol a gynhaliwyd yn yr 1980au i gyflwyno Cofeb Mametz. © Cymdeithas Ffrynt y Gorllewin; a thri llun o'r gwaith o adnewyddu'r Ddraig Goffa ym Mametz gan Gomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad. © Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad. (uchod) Cofeb i'r 38ain Adran (Gymreig) yng Nghoed Mametz, Ffrainc. © Gerry Wasikowski.

# Helpu Cymru i goffáu'r canmlwyddiant

## Bydd canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yn garreg filltir o bwys yn hanes Cymru, ac mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi ymrwymo i amlygu ei bwysigrwydd, fel yr esbonia Stephen Barlow.

**Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn croesawu ceisiadau ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth, boed fawr neu fach, sy'n ceisio coffáu pen-blwyddi'r Rhyfel Byd Cyntaf.**

Gall Cronfa Dreftadaeth y Loteri gynnig arian i hybu pob agwedd ar y dreftadaeth sy'n gysylltiedig â'r Rhyfel Byd Cyntaf, o leoedd, gwrthrychau a llenyddiaeth i hanesion dynion, menywod a phlant. Mae effeithiau hirdymor y rhyfel yn golygu nad yw ei hanes wedi'i gyfyngu i ddigwyddiadau 1914–1918 yn unig; yn hytrach, mae ei hanes yn cynnwys digwyddiadau coffáu, cofebau, ffilmiau a gwaith celf, yn ogystal â'r newidiadau technegol neu gymdeithasol a achoswyd ganddo. Mewn llawer o achosion, nid yw'n hawdd archwilio neu warchod y dreftadaeth hon, ac mae ei haenau cymhleth niferus yn cynnig cyfleoedd i ystyried pam a sut y mae'n berthnasol i ni heddiw. Bydd ystod eang o safbwyntiau a dehongliadau'n ymddangos yn ystod y blynyddoedd nesaf a bydd ein dealltwriaeth o'r rhyfel, heb os, yn gyfoethocach o ganlyniad.

### Rhaglenni grantiau

Gellir ariannu prosiectau o bob maint drwy ein rhaglenni grantiau agored, sef *Ein Treftadaeth* a *Grantiau Treftadaeth*, a thrwy'r rhaglen *Gwreiddiau Ifanc* sy'n ceisio cael pobl ifanc 11–25 oed i ymwneud â'u treftadaeth. Gallwn hefyd gynnig arian i warchod cofeb ryfel yn rhan o brosiect ehangach i wella dealltwriaeth pobl o'r hanesion sydd y tu ôl i'r gofeb.


Yn ogystal â'n rhaglenni grantiau agored arferol, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi lansio *Y Rhyfel Byd Cyntaf: ddoe a heddiw*, sef rhaglen grantiau bach ar gyfer cymunedau sydd am archwilio, gwarchod a rhannu eu treftadaeth sy'n gysylltiedig â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Wrth gael grantiau gwerth rhwng £3,000 a £10,000, mae grwpiau ledled y DU yn dyfnhau eu dealltwriaeth o effaith y gwrthdaro.

Gall prosiectau *Y Rhyfel Byd Cyntaf: ddoe a heddiw* gynnwys gweithgareddau megis ymchwilio i dreftadaeth leol, ei hadnabod a'i chofnodi, er enghraifft:

- creu archif neu gasgliad cymunedol
- datblygu dehongliad newydd o dreftadaeth drwy arddangosfeydd, llwybrau, apiau ar gyfer ffonau clyfar ac ati
- ymchwilio ac yna ysgrifennu a pherfformio deunydd creadigol sy'n seiliedig ar ffynonellau'n ymwneud â threftadaeth.

Gall y rhaglen gynnig arian i warchod cofebau rhyfel hefyd.

Yng Nghronfa Dreftadaeth y Loteri, rydym yn galw ar gymunedau lleol ar draws y DU i fynd ar drywydd yr hanesion diddorol a phwysig hyn y mae llawer ohonynt efallai'n angof ac ar goll erbyn hyn.




Medd Jennifer Stewart, Pennaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghymru, wrth bwysleisio pwysigrwydd y canmlwyddiant, “Oherwydd bod gan gymunedau lawer o ddiddordeb yn y canmlwyddiant, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri eisoes wedi dyfarnu grantiau i nifer o brosiectau eang ardderchog yng Nghymru, sy’n ceisio archwilio gwaddol y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ystod blwyddyn y canmlwyddiant, mae’n galonogol gweld cynifer o grwpiau’n chwilio am ffyrdd o goffáu’r rhyfel yn eu hardal a chyfrannu at deyrngedau cenedlaethol i’r cenedlaethau hynny yr effeithiodd y gwrthdaro’n uniongyrchol arnynt.”

## Cysylltu â ni

Os oes gennych syniad ar gyfer prosiect newydd, byddem yn hoffi clywed gennych. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ein rhaglenni grantiau ar ein gwefan www.hlf.org.uk a gallwch ddarllen ein herthygl sy’n dwyn y teitl *Deall y Rhyfel Byd Cyntaf.*

Dilynwch ni ar Twitter
@HLFCymru
#DeallRB1 #understandingww1

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn helpu Prifysgol Caerdydd i ddigideiddio cartwnau J. M. Staniforth yn ystod y rhyfel. Cafodd y cartwnau uchod eu cyhoeddi yn y Western Mail rhwng mis Awst a mis Tachwedd 1914. Trwy garedigrwydd Prifysgol Caerdydd.



Menywod ym Myddin y Tir y yn gweithio ar y cynhaeaf ŷd ym Mhowys, 1918. Trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru



# Atgofion Llanidloes

**Mae grŵp cymunedol yn Llanidloes, Powys wrthi'n gweithio ar brosiect a fydd yn adfer y cof am filwyr o'r ardal a fu farw yn y rhyfel, y mae eu henwau ar gofebau rhyfel lleol.**

Mewn prosiect o'r enw 'Arwystli yn y Rhyfel Mawr', sydd wedi'i drefnu gan Llani Ltd, mae dau hanesydd lleol, sef Nia Griffiths a Nick Venti, wedi bod yn astudio arysgrifau yng nghymunedau gwledig Llanidloes, Llangurig, Trefeglwys a Llandinam ac wedi bod yn ceisio dod i wybod mwy am fywydau'r sawl a fu farw. [1]

Mae 116 o unigolion wedi eu henwi ar y cofebau, ac mae gwybodaeth am dros 110 ohonynt wedi'i chasglu erbyn hyn. Bu'n bosibl cael lluniau o 73 ohonynt, ac mae hynny wedi bod yn fodd i roi wynebau i rai enwau.

Mae'r gwaith ymchwil a wnaed mor belled wedi cymryd dwy flynedd a hanner i'w gyflawni, ac mae llawer o hen doriadau papur newydd a llythyrau wedi'u darganfod, yn ogystal â ffotograffau a gwybodaeth o gyfrifiadau, er mwyn llenwi rhai o'r bylchau mewn gwybodaeth gefndirol. Canlyniad y gwaith hwnnw yw archif unigryw sy'n cynnig cipolwg diddorol tu hwnt ar fywyd cymunedol ganrif yn ôl. "Rydym yn dod o hyd i ragor o ddeunydd bob dydd," medd Nia. "Mae fy hen daid i ymhlith yr enwau sydd ar y cofebau, ac mae disgynyddion eraill y dynion a enwir wedi bod yn barod iawn i gyfrannu i'r gwaith ymchwil. Mewn rhai achosion, rydym wedi medru sicrhau bod pobl yn cael y lluniau cyntaf y maent wedi'u gweld erioed o berthnasau a fu'n gwasanaethu yn y rhyfel."




Bwriedir cynnal cyfres o sgyrsiau ac arddangosfeydd yn ystod y pedair blynedd nesaf, ac mae diddordeb yn y prosiect yn cynyddu'n barhaus. Yn ogystal, mae Llani Ltd wedi creu ap ar gyfer ffonau symudol, sy'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf. [2]

Bydd yr ap yn galluogi pobl i archwilio mannau diddorol yn y dref a'r cyffiniau wrth iddynt ddysgu mwy am brofiadau'r gymuned yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

"Mae ein prosiect wedi datblygu o fod yn ddarn o waith ymchwil i fod yn brosiect cymunedol go iawn," medd Nick. "Wrth i ni rannu'r wybodaeth yr ydym wedi'i chasglu, mae mwyfwy o bobl yn cymryd rhan yn y prosiect ac yn dweud wrthym beth y maen nhw'n ei wybod am y cyfnod unigryw hwn yn ein hanes lleol." [3]

I gysylltu â'r prosiect anfonwch e-bost at **greatwar@llanidloes.com**

[1] Arwystli yw'r enw hanesyddol ar y plwyfi o amgylch Llanidloes yng nghanolbarth Cymru.

[2] Mudiad cymunedol dielw yw Llani Ltd, sy'n ceisio hybu datblygiad economaidd ardal Arwystli.

[3] Cefnogwyd datblygiad yr ap gan Gyngor Sir Powys, Llywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig.

(uchod) Llun o'r Preifat David Mills 1881-1918 o 4edd Adran Troedfilwyr De Affrica. Fe'i ganwyd yn Nhrefeglwys, Sir Drefaldwyn a bu farw yng Nghoed Marrières yn Somme yn Ffrainc. Hen daid Nia Griffiths. © Llani Ltd

(canol) Dyluniad ap newydd Llani Ltd ar gyfer ffonau symudol. © Llani Ltd

# Gŵyl Gregynog 2014: Rhyfel





**Cafodd Gŵyl Gregynog, sef gŵyl cerddoriaeth glasurol hynaf Cymru, ei sefydlu yn 1933 gan Gwendoline a Margaret Davies. Bydd tymor 2014 yn dechrau ar 13 Mehefin ac yn gorffen ar 29 Mehefin, a bydd yn archwilio effaith Rhyfel Cartref Lloegr a'r Rhyfel Byd Cyntaf ar gerddorion yng Nghymru a'r Gororau.**

Mae'r digwyddiadau a fydd yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf wedi'u hysbrydoli gan hanes coll a rhyfeddol y ffoaduriaid o Wlad Belg a ddaeth i fyw ym Mhowys a Cheredigion ym mis Hydref 1914, diolch i weledigaeth a haelioni'r chwiorydd Davies a'u llysfam, Elizabeth. Roedd yr artistiaid a oedd yn aelodau o'r gymuned alltud niferus honno – Valerius de Saedeleer, George Minne a Gustave van de Woestijne – yn destun arddangosfa o bwys yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ac Amgueddfa'r Celfyddydau Cain yn Ghent yn 2003. Roedd y cerddorion yn eu plith yr un mor ddisglair, ac roedd ganddynt swyddi amlwg yn y Conservatoire ym Mrwsel, y Palas Brenhinol a La Monnaie, ond prin yw'r sylw y mae eu cyflawniadau nhw wedi'i gael.


"Yr anghysondeb hwn a sbardunodd fy ngwaith ymchwil," medd Dr Rhian Davies, Cyfarwyddwr Artistig yr Ŵyl, "ac mae stori ryfeddol y cantorion, y chwaraewyr offerynnau llinynnol a'r pianyddion a fu'n teithio o amgylch Cymru yn cynnal cyngherddau er budd y Gronfa Gymorth i Wlad Belg yn parhau i ddod i'r amlwg." Yn aml, yr ensemble fyddai'n rhoi'r perfformiad cyntaf erioed o ddarnau newydd gan y cyfansoddwyr a oedd ymhlith y ffoaduriaid, sef Eugène Guillaume a Nicolas Laoureux, a chyflwynodd Guillaume ei *Fantaisie* ar gyfer ffidil a phiano i Gwendoline Davies. Maes o law byddai David van de Woestijne (uchod ar y dde) a oedd yn fab i ddau ffoadur ac a anwyd yng Ngwesty'r Llew yn Llandinam ym mis Chwefror 1915, hefyd yn dod yn un o gyfansoddwyr amlycaf Gwlad Belg.

Mae llawysgrifau o'u gweithiau wedi'u holrhain i gasgliadau nad ydynt wedi'u catalogio ym Mrwsel. Bydd y cyfansoddiadau hyn yn cael eu hatgyfodi gan y feiolinydd o Wlad Belg, Yossif Ivanov (yn Llandinam ar 26 Mehefin), Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC (yn Aberystwyth ar 27 Mehefin) a'r Nash Ensemble (yng Ngregynog ar 28 Mehefin). Bydd Côr Radio Fflandrys, sy'n gôr rhagorol, hefyd yn perfformio am y tro cyntaf yng Nghymru ac am yr unig dro yn ystod y tymor hwn yn y DU (yng Ngregynog ar 29 Mehefin).

Gellir cael tocynnau a rhagor o wybodaeth ar www.gregynogfestival.org a thrwy ffonio 01686 207100

(uchod ar y chwith) Neuadd Gregynog a'r Ystafell Gerdd ar y dde. © Gŵyl Gregynog .
(uchod ar y dde) David van de Woestijne, y cyfansoddwr o Wlad Belg, a anwyd yn Llandinam ym mis Chwefror 1915. © CeBeDem, Brwsel

# Cofeb Gymreig yn Fflandrys



**Peter Carter Jones, cydlynydd yr ymgyrch dros gael cofeb yn Fflandrys, sy'n disgrifio'r cynnydd a wnaed mor belled a'r cynlluniau ar gyfer y dadorchuddio.**

Mae'r ymgyrch i godi cofeb briodol a theilwng i'r sawl o dras Gymreig a wasanaethodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn tynnu at ei derfyn erbyn hyn. Mae wedi cymryd bron i bedair blynedd o waith caled. Yn dilyn sawl apêl yn y cyfryngau, a llawer o ddigwyddiadau, cyngherddau, ymgyrchoedd gwerthu pinnau llabed a gweithgareddau ymylol eraill i godi arian, gallwn ddweud yn hyderus erbyn hyn ein bod wedi codi digon o arian, bron iawn, i gwblhau'r prosiect. Mae angen rhagor arnom o hyd, ond mae digon wedi'i godi i sicrhau na fyddwn mewn dyled pan fyddwn wedi talu ein biliau i gyd! Mae arian wedi'i godi mewn nifer o wahanol ffyrdd. Yn dilyn awgrym gan Isgoed Williams o Drawsfynydd, sy'n aelod o'r pwyllgor, bu 'Un Llais Cymru' yn canfasio pob cyngor tref a chymuned yng Nghymru ar fy rhan gan ofyn iddynt gyfrannu i'r apêl. Mae tua 70% ohonynt wedi gwneud hynny. Llwyddodd cyngerdd yng nghapel y Tabernacl, Treforys yn ystod hydref 2013 i godi £6,500. Cafodd bron i £3,000 ei godi mewn cinio a drefnwyd gan Paul Silk (Cadeirydd y comisiwn ar ddatganoli) yng Ngholeg Crist, Aberhonddu. Mae ymgyrch gwerthu pinnau llabed, a gynhaliwyd gan Ivan Beatty sy'n aelod o'r pwyllgor, wedi codi dros £20,000.

**'Mae angen rhagor arnom o hyd, ond mae digon wedi'i godi i sicrhau na fyddwn mewn dyled pan fyddwn wedi talu ein biliau i gyd!'**

O ran y gofeb, mae'r Gromlech wedi'i chodi erbyn hyn ar ddarn o dir a gyfrannwyd gan faer Langemark yn Fflandrys. Mae'r safle ar Gefn Pilckem lle bu'r 38ain Adran (Gymreig) a'r Gwarchodlu Cymreig ym mis Gorffennaf 1917 yn ceisio gyrru'r Almaenwyr oddi ar y Cefn er mwyn i'r prif ymosodiad ar Passchendaele allu mynd rhagddo. Llwyddodd y Cymry i wneud hynny ond cafodd llawer o'r milwyr eu lladd neu'u hanafu. Dyfarnwyd tair Croes Fictoria, a bu farw Hedd Wyn (Ellis Humphrey Evans), ein bardd o fri, o'i anafiadau yn y frwydr honno a ddigwyddodd nid nepell o safle'r gofeb. Gofynnodd Cyngor Celfyddydau Cymru a Sculpture Cymru am ddyluniadau ar gyfer draig efydd a rhoddwyd pedair dyluniad ar y rhestr fer. Dewisodd y pwyllgor ddyluniad gan Lee Odishow o Ddinbych-y-pysgod, cyn fyfyriwr yng Ngholeg Sir Gâr yng Nghaerfyrddin. Mae'r model bellach wedi mynd i ffowndri yn Llanrhaeadr-ym-mochnant, Powys lle y cafodd ei gastio i'w maint llawn. Unwaith bydd yn barod, bydd y ddraig efydd yn cael ei gosod ar ben y Gromlech, sydd wedi'i ffurfio o bedair carreg glas pennant Cymreig o chwarel Craig-yr-Hesg ger Pontypridd, ac mi fydd yn drawiadol i'r llygad am filltiroedd oddi amgylch. Bwriedir dadorchuddio'r gofeb a chynnal gwasanaeth cyflwyno ar 16 Awst 2014, ac erbyn hynny bydd pwyllgor Fflandrys wedi creu gardd goffa o amgylch y Gromlech. Maent eisoes yn cyfeirio ati fel 'Gardd Goffa Genedlaethol Cymru'.

Ar y safle bydd llechen Gymreig ac arni destun Cymraeg, Saesneg a Fflemineg yn dweud:

ER COF AM BAWB O DRAS GYMREIG A GYMERODD RAN YN Y RHYFEL BYD CYNTAF.

Y gofeb hon fydd yr unig gofeb genedlaethol Gymreig yn y byd y tu allan i Gymru.





(chwith) Cerflun maint llawn o glai o'r Ddraig ar gyfer y Gofeb Gymreig yn Fflandrys. yn barod i'w gastio mewn efydd. © Ymgyrch y Gofeb Gymreig yn Fflandrys/Castle Fine Arts Foundry Ltd. (uchod ar y chwith) Y Gromlech wedi'i chwblhau yn Langemark, Gwlad Belg. © Ymgyrch y Gofeb Gymreig yn Fflandrys.
(uchod ar y dde) Prif Weinidog Cymru, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, aelodau o grŵp Ymgyrch y Gofeb Gymreig yn Fflandrys a'r artist, Lee Odishow, yn nigwyddiad lansio dyluniad buddugol y ddraig ar gyfer y Gofeb Gymreig yn Fflandrys. © Llywodraeth Cymru

# Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r profiad Cymreig

## archif ddigidol o ffynonellau gwreiddiol o archifau a chasgliadau arbennig Cymru






**'Mae'r casgliad digidol cydlynus a chyfun hwn yn datgelu agweddau ar hanes y Rhyfel Byd cyntaf, a fu'n aml yn gudd.'**

(llun yn y cefndir) 8fed Bataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn cyrraedd gorsaf drenau'r Bala yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru.
Daw'r lluniau hyn o www.cymru1914.org. © Llyfrgell Genedlaethol Cymru

**Yn ôl Lorna Hughes, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi bod yn arwain prosiect cydweithredol i ddatblygu *Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r profiad Cymreig,* sef archif ddigidol gynhwysfawr, a fydd ar gael i bawb, o ddeunydd sy'n ymdrin ag effaith y Rhyfel ar gymdeithas, iaith, gwleidyddiaeth, yr economi, celfyddyd a diwylliant. Cafodd y prosiect ei ariannu gan JISC a phartneriaid y prosiect, a chafodd ei lansio ym mis Tachwedd 2013.**

Mae'r deunyddiau sy'n ffynonellau gwreiddiol, ac sydd ar gael yn ddigidol erbyn hyn, yn cynnwys 200,000 o dudalennau o ddogfennau (sy'n cynnwys archifau, ffotograffau, llawysgrifau a phapurau newydd), hanesion llafar a deunydd clyweled. Mae tua 30% o'r deunydd yn ddeunydd Cymraeg.

Mae'r archif ddigidol yn cynnwys deunydd gan y canlynol:

- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant
- archifau lleol Conwy, Sir y Fflint, Morgannwg a Gwent
- archif BBC Cymru Wales.

Mae *Casgliad y Werin Cymru* hefyd wedi bod yn arwain gweithdai cymunedol i greu deunydd, a cheir llawer o eitemau eiconig sy'n cynnwys y canlynol:

- cofnodion y Corfflu Cymreig, sy'n cofnodi gwaith recriwtio a phropaganda
- papurau newydd Cymreig yn ystod y cyfnod rhwng 1913 ac 1919, sy'n cynnwys newyddion a deunydd llenyddol, llythyrau gan filwyr, a barddoniaeth
- llawysgrifau sy'n cynnwys dyddiaduron a llythyrau, gweithiau llenyddol cyfoes a hanesion llafar
- archifau llenyddol, yn enwedig gwaith 'Beirdd Rhyfel Cymru', ac Edward Thomas, David Jones a Hedd Wyn (Ellis Humphrey Evans) yn benodol, ac artistiaid sy'n cynnwys David Jones
- dogfennau swyddogol sy'n cynnwys cofnodion eglwysi a chapeli a chofnodion sefydliadau swyddogol, busnesau ac undebau llafur.

Mae'r deunydd hwn yn adnodd unigryw a fydd o ddiddordeb mawr i ymchwilwyr, myfyrwyr a'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd mynediad digidol yn trawsnewid ac yn cyfoethogi ein hymwneud â hanes, ac yn sicrhau bod ffynonellau ar gyfer ymchwilio, addysgu a mwynhau ar gael i gynulleidfaoedd yn fyd-eang. Mae'r casgliad digidol cydlynus a chyfun hwn yn datgelu agweddau ar hanes y Rhyfel Byd Cyntaf, a fu'n aml yn gudd, ac mae'n adnodd amhrisiadwy ar gyfer addysgu, ymchwilio ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

## Defnyddio'r archif ddigidol

Mae'r cynnwys yn hybu gwaith ymchwil rhyngddisgyblaethol manwl. Mae'n hawdd mynd drwy lawer o ddata digidol a meithrin dealltwriaeth nad yw'n bosibl drwy ddulliau ymchwilio traddodiadol. Mae Dr Paul O'Leary o Brifysgol Aberystwyth wedi bod yn gweithio gyda Rhaglen Ymchwil y Llyfrgell Genedlaethol ym maes Casgliadau Digidol i ddatblygu arddangosfa ar-lein thematig, sef *Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Cymoedd Diwydiannol* (http://merthyrww1.llgc.org.uk). Mae'r arddangosfa yn defnyddio cynnwys o *Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r profiad Cymreig* a Casgliad y Werin Cymru i gofnodi sut yr oedd yr economi 'gartref' yn canolbwyntio ar ddarparu gynnau, arfau, llongau, bwyd ac adnoddau eraill, ac yn cynnwys y boblogaeth sifil mewn 'Rhyfel Diarbed' o fath newydd. Mae'r arddangosfa yn canolbwyntio ar Ferthyr Tudful a Chwm Cynon ym mherfeddion maes glo de Cymru, ac mae'n archwilio agweddau at y rhyfel ac yn dangos sut yr ymatebodd amrywiaeth o grwpiau ac unigolion yn eu gwahanol ffyrdd i'r gwrthdaro.

## Defnyddio'r archif i addysgu

Gellir integreiddio'r cynnwys digidol yn hwylus wrth addysgu ar draws y cwricwlwm, ac mae Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell Genedlaethol yn gweithio mewn partneriaeth ag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ar brosiect mawr i ddatblygu adnoddau addysgol gan ddefnyddio cynnwys o *Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r profiad Cymreig.* Bydd yr adnoddau ar gael ar Hwb, sef y llwyfan dysgu ar-lein, o fis Awst 2014 ymlaen.




I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.cymru1914.org a www.llgc.org.uk/cy.

# Amgueddfa Cymru - National Museum Wales

## Y Rhyfel Byd Cyntaf: straeon y Cymry



Gladys May Evans yn ei gwisg ar gyfer Byddin y Tir yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Fe'i ganwyd ym Mhort Talbot, a bu'n gwneud gwaith gwirfoddol yng ngerddi ac ar dir Castell Sain Ffagan yn ystod y rhyfel. ©Amgueddfa Cymru



Milwyr o 7fed Bataliwn (Seiclwyr) y Gatrawd Gymreig gyda'u beiciau yn Llanilltud Fawr. Trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru

(llun yn y cefndir) Pabïau. © Amgueddfa Cymru

**Mae gan saith amgueddfa genedlaethol Cymru lawer o straeon i'w hadrodd ar sail y deunyddiau, y gwrthrychau, y ffotograffau a'r deunydd archifol arall sydd ganddynt eisoes. Er hynny, er mwyn deall yn well beth oedd effaith rhyfel ar fywyd yng Nghymru, mae Amgueddfa Cymru yn ymgysylltu â'r Cymry er mwyn ein helpu i ddarganfod ac adrodd y straeon hyn.**

Rydym eisoes wedi dechrau'r sgyrsiau hyn. Ar 9 Tachwedd 2013, daeth dros 100 o bobl o gymunedau cyfagos ynghyd wrth ymyl Cofeb Ryfel Trecelyn yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan i anrhydeddu aberth milwyr yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd ac mewn rhyfeloedd eraill ers hynny. Yna, yn Sefydliad y Gweithwyr Oakdale, bu curaduron yn rhannu gwrthrychau'r Rhyfel Byd Cyntaf sydd yn y casgliadau cenedlaethol, gan annog pobl i drafod a rhannu gwybodaeth.

"Mae Amgueddfa Cymru yn coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf gyda'r sawl sy'n ymweld â'i safleoedd," meddai Janice Lane o Amgueddfa Cymru. "Rydym hefyd yn gweithio gydag ystod o bartneriaid yn lleol ac yn genedlaethol."

"Byddwn yn archwilio sut yr ymatebodd y Cymry i'r alwad i fynd i ryfel, a byddwn yn rhannu barn ynghylch sut yr effeithiodd y rhyfel ar bobl gartref a sut yr effeithiodd ar y sawl a fu'n ymladd ac yn gweithio ar faes y frwydr. Byddwn hefyd yn archwilio sut y newidiodd sgiliau, agweddau a chredoau drwy gydol y cyfnod hwnnw ac yn dilyn y rhyfel."

Yn ystod gwanwyn 2014 ym mhob un o'n hamgueddfeydd, bydd aelodau'r cyhoedd yn cael eu gwahodd i ymuno â'r staff i hau hadau'r pabi er mwyn coffáu'r sawl sydd wedi marw ym mhob rhyfel. Drwy gydol y cyfnod coffáu, bydd y pabi'n atgoffa pobl bob blwyddyn am y rhyfel ac yn cynnig man lle gall pobl ymgynnull a myfyrio.

### Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Bydd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn dechrau ei digwyddiadau coffáu ar 2 Awst 2014 gyda'i harddangosfa *Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf*. Bydd yr arddangosfa hon yn cyfuno cyfres o brintiau lithograff a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Wybodaeth yn 1917 i galonogi'r cyhoedd, a oedd wedi blino ar y rhyfel, a hybu cefnogaeth i'r ymdrech i ennill y rhyfel. Mae'r delweddau'n darlunio rhai o'r agweddau a

oedd yn newid yn y gymdeithas, megis rôl menywod yn ystod y Rhyfel. Mae'r printiau lithograff hyn yn cynnwys gwaith gan rai o artistiaid gorau Cymru a Phrydain, megis Augustus John a Frank Brangwyn.

Mae 'National Memory – Local Stories', sef prosiect cyfranogi creadigol a gaiff ei ariannu gan Sefydliad Paul Hamlyn a'i arwain gan yr Oriel Bortreadau Genedlaethol, wedi ennyn ymateb brwd ymhlith pobl ifanc i brintiau *Ysbrydoli'r Ymdrech*. Bydd y canlyniadau'n cael eu harddangos ar yr un pryd â'r arddangosfa yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ar ffurf posteri, ffilmiau byr, monologau ac animeiddiadau.

### Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Eryri

Bydd *Cychwyn Cofio* yn agor ym mis Gorffennaf 2014 yn Amgueddfa Lechi Cymru a bydd yn apelio, ar draws cymunedau chwarelyddol, am wybodaeth am y Rhyfel a'i ddylanwad ar fywydau pobl. Bydd *Cychwyn Cofio* yn cefnogi ac yn ategu'r gwaith a wneir drwy raglen gymunedol yr Amgueddfa i ddatblygu dwy arddangosfa sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2015 a 2016.

### Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin

Bydd *Y Diwydiant Gwlân dan Gwmwl Du* yn agor yn yr haf gan ddechrau ar 1 Gorffennaf a gorffen ar 29 Tachwedd 2014. Bydd y prosiect hwn yn archwilio effaith rhyfel ar y diwydiant gwlân lleol, oherwydd bod angen contractau gwehyddu ar y melinau i allu aros ar agor. Bydd yr arddangosfa'n adrodd straeon megis y stori am sut y ceisiodd y Corfflu Cymreig hyrwyddo hunaniaeth Gymreig drwy wisgo'r fyddin newydd mewn brethyn cartref brodorol o'r enw *Brethyn Llwyd*.

### Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe

Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau wrthi'n creu arddangosfa o'r enw *Diwydiant Cymru a'r Rhyfel Mawr*, y bydd modd ei gweld rhwng 12 Hydref 2014 a 15 Mawrth 2015. Bydd yr arddangosfa deithiol hon yn archwilio cyfraniad diwydiant Cymru i ymdrech Prydain i ennill y rhyfel. Bydd rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau'n cael ei chynnal drwy gydol 2014 i gyd-fynd â'r arddangosfa.

Yn ogystal, mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion yn cymryd rhan yn y coffáu drwy fwrw golwg hanesyddol ar ryfela. Bydd arddangosfa *Equus: Ceffylau mewn Rhyfel*, y bydd modd ei gweld rhwng 27 Mehefin 2014 a 30 Ionawr 2015, yn archwilio ceffylau rhyfel Rhufeinig a'u ffitiadau ac yn eu cymharu â sut y cafodd ceffylau eu defnyddio yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd hynny'n dilyn perfformiad o *War Horse* yng Nghanolfan y Mileniwm a'r ffaith bod penwisg ceffyl wedi'i darganfod yn ddiweddar wrth gloddio yng Nghae'r Priordy.

Am docynnau neu wybodaeth bellach ewch at www.amgueddfacymru.ac.uk



Milwyr â cheffylau yng ngorsaf drenau Trawsfynydd, tua 1916. Trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru

# Sut y gallwch gymryd rhan

CYMRU'N COFIO
WALES REMEMBERS
1914 - 1918

**Gallwch chwarae rhan mewn amryw ffyrdd yn y digwyddiadau a gynhelir i goffáu'r canmlwyddiant yng Nghymru, o ymuno â ni ar Facebook i wneud cais am gyllid er mwyn adfer eich cofeb ryfel leol.**

## Olrhain y rhan a chwaraeodd eich perthnasau yn y Rhyfel Byd Cyntaf

Mae nifer o sefydliadau yng Nghymru a all eich helpu i ddarganfod mwy am y rhan a chwaraeodd eich perthnasau yn y rhyfel.

### Amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd


Gall amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol eich helpu i olrhain perthnasau a chwaraeodd ran yn y rhyfel. Yn aml bydd archifau'n cydweithio â chymdeithasau hanes lleol a theuluol, a gallent gael gafael ar gofnodion genedigaethau, priodasau a marwolaethau. Efallai y bydd llyfrgelloedd ac archifau hefyd yn gallu darparu mynediad yn rhad ac am ddim i gofnodion milwrol ar-lein, y mae'n rhaid talu fel rheol i gael mynediad iddynt, er enghraifft ar www.ancestry.com www.findmypast.co.uk a www.genesreunited.com


### Cofebau a mynwentydd rhyfel

Mae gan Gomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad www.cwgc.org, sy'n gofalu am fynwentydd a chofebau rhyfel mewn dros 150 o wahanol wledydd, gronfa ddata ar-lein o'r milwyr sydd wedi'u claddu mewn mynwentydd ledled y byd, ac mae'n golygu bod modd gweld ble mae beddau ymhell dros filiwn o ddynion a menywod a fu'n gwasanaethu yn y rhyfel. Caiff cronfa ddata o gofebau rhyfel yn y Deyrnas Unedig – yr Archif Cofebau Rhyfel www.ukniwm.org.uk – ei chynnal gan yr Imperial War Museums.

### Prosiectau digideiddio

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wrthi'n digideiddio llwyth o ddogfennau gwreiddiol, gan gynnwys nifer fawr o bapurau newydd, sy'n sôn am y Rhyfel Byd Cyntaf a'r profiad Cymreig. Mae'r dogfennau hynny ar gael yn awr ar www.cymru1914.org. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr erthygl ar dudalen 12 *Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r profiad Cymreig.*


Under the Patronage of the University College of Wales Musical
Concert of Belgian Mus
GIVEN BY BELGIAN ARTISTES
IN AID OF THE BELGIAN RELIEF FUN
At the COLISEUM
ON FRIDAY, OCTOBER 16TH, 1914, AT 8 P.
PROGRAMME




(i'r dde) Rhaglen cyngerdd a gynhaliwyd yn Aberystwyth ym 1914 gan gerddorion a oedd yn ffoaduriaid o Wlad Belg.
© Bibliothèque du Conservatoire royal de Bruxelles.

## Ffynonellau cyllid - Prosiectau Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf

Os ydych yn cynllunio prosiect i goffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru, dyma rywfaint o gyngor i chi ynghylch sefydliadau a all gynnig grantiau a chymorth ariannol arall.

### Rhaglen 'Y Rhyfel Byd Cyntaf: ddoe a heddiw' Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae rhaglen *Y Rhyfel Byd Cyntaf: ddoe a heddiw* Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn darparu grantiau sy'n werth rhwng £3,000 a £10,000 er mwyn i gymunedau goffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ewch i wefan y Gronfa i gael gafael ar ffurflenni cais, arweiniad ac enghreifftiau o brosiectau.

**www.hlf.org.uk**

### Grantiau ar gyfer Cofebau Rhyfel yng Nghymru - Cadw

Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel, a bydd yn helpu i ddiogelu cofebau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae grantiau sy'n werth hyd at 70% o'r costau cymwys (hyd at uchafswm o £10,000) ar gael i warchod ac atgyweirio cofebau rhyfel. I gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad, ewch i'r adran Cymorth, Cyngor a Grantiau ar wefan Cadw:

**www.cadw.cymru.gov.uk**

### Cynllun Grantiau Cofebau

Gallai cymorth ychwanegol fod ar gael drwy'r cynllun hwn a gaiff ei redeg gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yng Nghymru a Lloegr, sy'n ad-dalu'r TAW y mae'n rhaid ei thalu wrth adeiladu, atgyweirio a chynnal a chadw cofebau. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan y cynllun grantiau cofebau.

**www.memorialgrant.org.uk**

### Cyngor Celfyddydau Cymru

Os oes dimensiwn diwylliannol neu artistig yn perthyn i brosiect, gallech chi wneud cais am gymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru www.celfcymru.org.uk Mae'r sefydliad hwn hefyd yn cynnig cyngor ynghylch sut i wneud cais am gyllid ac yn rhoi manylion nifer o ffynonellau eraill o gyllid sydd ar gael i sefydliadau ac unigolion ym maes y celfyddydau.

### Ffynonellau eraill o gyllid

Mae'n bosibl y bydd elusennau preifat neu fusnesau masnachol yn barod i gefnogi prosiectau coffáu, yn enwedig os oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r elusen neu'r busnes.

Gellir cael cymorth ar-lein i ddod o hyd i gyrff sy'n cynnig grantiau ar y **www.grantnet.com**, ac mae'r Sefydliad Cymorth Elusennau yn cyhoeddi cyfeiriadur rheolaidd o ymddiriedolaethau sy'n cynnig cymorth grant. Mae'r cyfeiriadur ar gael yn aml mewn llyfrgelloedd lleol.

## Ymunwch â ni ar-lein

### Gwefan Cymru'n Cofio

Mae llawer o sefydliadau'n trefnu prosiectau a digwyddiadau arbennig drwy gydol y cyfnod coffáu. Cymerwch gip ar y tudalennau sydd ar ein gwefan ar gyfer prosiectau a digwyddiadau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd ar y gweill yn eich ardal chi:

**www.cymruncofio.org**

### Cyfryngau cymdeithasol

Sicrhewch eich bod yn cael y newyddion diweddaraf am ddigwyddiadau yng Nghymru, ac ymunwch yn y sgwrs er mwyn sôn wrthym am sut yr ydych chi'n cymryd rhan.




*Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918

@cymruncofio

# Digwyddiadau

**Nid yw Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ddigwyddiadau a drefnwyd gan gyrff, unigolion neu grwpiau allannol. Mae'n bosib y bydd yn rhaid neilltuo lle neu dalu i gael mynediad i rai digwyddiadau. Cysylltwch â threfnwyr y digwyddiad yn uniongyrchol am fanylion pellach.**

## Mehefin

### 7 Meh 2014

**Taith gerdded o amgylch Yr Ysgwrn yng nghwmni Twm Elias.**

Yr Ysgwrn, Trawsfynydd

cymruncofio.org

Dyma gyfle i brofi rhai o'r golygfeydd a'r tirluniau ysbrydoliedig a roddodd yr awen i Hedd Wyn a chynifer o feirdd ac artistiaid eraill o Eryri. Taith gymhedrol fydd hon. Cofiwch wisgo esgidiau a dillad addas.

**Bydd paned a chacen ar gael yn dilyn y daith.**

### 14 Meh 2014, 11:00yb-3:00yp

**Amgueddfa Wlân Cymru - Gweithdy gwau Llygaid y Cythraul, rygio rhacs a crochet**

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre

amgueddfacymru.ac.uk

Gweithdy gwau Llygaid y Cythraul, rygio rhacs a crochet.

**Sesiynau galw heibio/Am ddim.**

### 18 Meh - 17 Gorff 2014

**Arddangosfa o Gartwnau J.M. Staniforth yn ystod y Rhyfel**

Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd

cymruncofio.org

I gyd-fynd â pherfformiadau o War Horse yng Nghanolfan y Mileniwm, dewch i weld arddangosfa dros dro o amrywiaeth o gartwnau gan J.M. Staniforth o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf. Roeddent yn gartwnau a gyhoeddwyd yn y Western Mail.

### 18 Meh - 19 Gorff 2014

**War Horse: Canolfan Mileniwm Cymru**

Theatr Donald Gordon, Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd

wmc.org.uk

Dan gysgod hunllefus y Rhyfel Byd Cyntaf, mae War Horse yn codi'r galon gyda hanes grymus y crwt Albert a'i annwyl geffyl Joey wrth iddyn nhw fynd ati ar wahân, a gyda'i gilydd, i wynebu caledi sydd y tu hwnt i'r dychymyg.

Gyda'r pypedau maint llawn sydd wrth galon y sioe, daw'r ceffylau'n fyw gan garlamu a hyrddio ar draws y llwyfan. Dyma stori anhygoel am ddewrder, teyrngarwch a chyfeillgarwch gyda cherddoriaeth iasol a chrefft llwyfan sy'n torri tir newydd. Mae War Horse wir yn brofiad theatr bythgofiadwy.

**Hyd y Perfformiad:**
Tua 2 awr a 40 munud (yn cynnwys 1 egwyl).

**Tocynnau: Llun – Iau £20 – £44 (£21.50 – £45.50*) Gwe a Sad £24 – £50 (£25.50 – £51.50*) / Pecynnau Premium** £60 (£61.50*)**

**Canllaw Oed: 10+ (Dim plant dan 5).**

### 23 Meh 2014, 7:30yh

**Gŵyl Gregynog 2014: Rhyfel - Cofio Hedd Wyn**

Neuadd Pentref Trawsfynydd, Gwynedd

gregynogfestival.org/cymraeg/

Rhan o raglen Gŵyl Gregynog 2014: Rhyfel.

Cyfle prin i glywed Alan Llwyd, cofiannydd Hedd Wyn, yn darlithio yn Nhrawsfynydd.

Yn ystod y dydd, bydd cyfle hefyd i ymweld â'r Ysgwrn, sef hen gartref y bardd.

**Bydd angen cadw lle/£5 i oedolion; yn rhad ac am ddim i bobl ifanc.**

### 24 Meh 2014, 7:30yh

**Gŵyl Gregynog 2014: Rhyfel - Coope, Boyes a Simpson**

Yr Institiwt, Llanfair Caereinion

gregynogfestival.org/cymraeg/

Bydd y triawd gwerin 'a cappella' trawiadol hwn yn cyflwyno 'In Flanders Fields', a fydd yn cyfuno

cerddoriaeth a barddoniaeth y Rhyfel Byd Cyntaf â hanesion tystion a darnau allan o The Wipers Times.

**Bydd angen cadw lle/£10 i oedolion; £5 i bobl ifanc.**

---

### 24 Meh - 05 Gorff 2014

### National Theatre Wales (cwmni theatr genedlaethol gyfrwng-Saesneg) - Mametz

Brynbuga, Sir Fynwy

nationaltheatrewales.org/mametz

Comisiynwyd ar y cyd gan 14-18 NOW.

Ysgrifennwyd gan Owen Sheers

Cyfarwyddwyd gan Matthew Dunster

Bydd y cynhyrchiad mawr hwn mewn coetir hynafol wrth ymyl Brynbuga yn gyfle i gynulleidfaoedd weld darlun byw o un o feysydd y gad yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r cynhyrchiad wedi'i ysbrydoli gan gerdd yr awdur o Gymru, Owen Sheers, sy'n dwyn y teitl *Mametz Wood*, a bydd yn defnyddio deunydd ysgrifenedig y beirdd a fu'n ymladd neu a oedd yn dystion yn un o frwydrau mwyaf gwaedlyd y Somme, sef Brwydr Coed Mametz, lle cafodd 4,000 o filwyr yr 38ain Adran (Gymreig) eu lladd neu'u hanafu.

**Mae'n bosibl y bydd angen cadw lle.**

---

### 25 Meh 2014, 7:30yh

### 'Your Country Needs You' - sgwrs gan James Taylor.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

llgc.org.uk/cy

Ymunwch â James Taylor i ddarganfod nad poster swyddogol oedd y poster recriwtio hwn, sydd wedi dod yn un o brif ddelweddau'r Rhyfel Mawr ym marn llawer. Bydd y sgwrs hefyd yn ymdrin â'r posteri swyddogol y barnwyd eu bod yn boblogaidd ac yn effeithiol ym Mhrydain a'r Ymerodraeth Brydeinig.

**Mynediad yn rhad ac am ddim drwy archebu tocyn drwy'r wefan uchod.**

---

### 27 Meh 2014, 7:00yh

### Gŵyl Gregynog 2014: Rhyfel - Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC gyda Sioned Williams, telyn, a Jac van Steen, arweinydd

Neuadd Fawr, Aberystwyth

gregynogfestival.org/cymraeg/

**George Butterworth**
Rhapsodi: A Shropshire Lad

**David van de Woestijne**
Symffon

**Joseph Jongen**
Concerto i'r Delyn

**Frederick Septimus Kelly**
Galargan: In Memoriam Rupert Brooke

**Morfydd Owen**
Morfa Rhuddlan

**Bydd angen cadw lle/£15 i oedolion; £7.50 i bobl ifanc/myfyrwyr.**

---

### 27 Meh 2014 - 30 Ion 2015

### Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru - Equus: Ceffylau mewn Rhyfel

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru (Caerllion)

amgueddfacymru.ac.uk

Arddangosfa am geffylau rhyfel Rhufeinig a'u ffitiadau, a fydd yn cymharu'r ceffylau hynny â cheffylau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r arddangosfa yn dilyn addasiad llwyfan o'r nofel a'r ffilm boblogaidd *War Horse* a'r ffaith bod penwisg ceffyl wedi'i darganfod yn ddiweddar wrth gloddio yng Nghae'r Priordy yng Nghaerllion.

---

### 28 Meh, 2014

### Diwrnod y Lluoedd Arfog Caerdydd - arddangosfa'r Rhyfel Byd Cyntaf

Castell Caerdydd

1940sswanseabay.co.uk/

Arddangosfa am y Rhyfel Byd Cyntaf gan actorion ail-greu hanes o amgueddfa Bae Abertawe 1940au.

---

### 28 Meh 2014

### Diwrnod y Lluoedd Arfog

Ledled Cymru

cymruncofio.org

Bydd dinasoedd a threfi ledled Cymru yn coffáu Diwrnod y Lluoedd Arfog a chanmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

**Bydd manylion i'w gweld yn y wasg leol ac ar ein gwefan.**

---

### 28 Meh 2014, 10:00yb

### Gŵyl Gregynog 2014: Rhyfel - Diwrnod Astudio Gwlad Belg

Yr Ystafell Gerdd, Gregynog

gregynogfestival.org/cymraeg/

Sgyrsiau ar sail yr ymchwil ddiweddaraf am y cerddorion a'r artistiaid alltud o Wlad Belg a ddaeth i fyw yng nghanolbarth Cymru ym mis Hydref 1914 drwy garedigrwydd Gwendoline a Margaret Davies, sylfaenwyr Gŵyl Gregynog.

**Bydd angen cadw lle/£10 i oedolion; yn rhad ac am ddim i bobl ifanc.**

---

(llun yn y cefndir) Gweini cinio i 15fed Bataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig (Cymry Llundain) yn eu ffosydd yn Fleurbaix, 28 Rhagfyr 1917. © IWM (Q8371)

### 28 Meh 2014, 7:30yh

**Gŵyl Gregynog 2014: Rhyfel - The Nash Ensemble**

Yr Ystafell Gerdd, Gregynog

gregynogfestival.org/cymraeg/

Caiff gwaith Dvorak, Stravinsky a phumawd poblogaidd Schubert, 'Trout Quintet', eu cyfuno â pherfformiadau newydd o gerddoriaeth gan y cyfansoddwyr alltud o Wlad Belg Eugène Guillaume a Joseph Jongen.

**Bydd angen cadw lle/£25 i oedolion; £12.50 i bobl ifanc.**

---

### 29 Meh 2014, 7:30yh

**Gŵyl Gregynog 2014: Rhyfel - Côr Radio Fflandrys gyda Julien Libeer, piano a Bart Van Reyn, cyfarwyddwr**

Yr Ystafell Gerdd, Gregynog

cymruncofio.org

Bydd Côr Radio Fflandrys yn perfformio am y tro cyntaf yng Nghymru ac am yr unig dro yn ystod y tymor hwn yn y DU, a bydd y rhaglen yn cynnwys cerddoriaeth o Brydain a Fflandrys yn ystod cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf.

**Bydd angen cadw lle/£25 i oedolion £12.50 i bobl ifanc.**

---

## Gorffennaf

### 1 Gorff - 16 Hyd 2014

**Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru - Angau ac Angerdd - y Pabi Opiwm**

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru (Caerllion)

amgueddfacymru.ac.uk

Adrodd hanes y pabi yn oes y Rhufeiniaid a'i gysylltiad â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd y blodau'n cael eu tyfu yng ngardd Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.

---

### 1 Gorff 2014 - 29 Tach 2014

**Amgueddfa Wlân Cymru - Y Diwydiant Gwlân dan Gwmwl Du**

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre

amgueddfacymru.ac.uk

Arddangosfa sy'n archwilio sefyllfa enbyd y melinau gwlân, yr oedd arnynt angen contractau yn ystod y Rhyfel i aros ar agor, ac sy'n archwilio'r modd y cafodd hunaniaeth Gymreig ei defnyddio at ddibenion recriwtio.

---

### 2 Gorff 2014, 1:15yp

**Recriwtio i'r lluoedd yn y Rhyfel Mawr - cipolwg ar Sir Gaerfyrddin, gan Robert Phillips**

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

llgc.org.uk/cy

Cyfle i fwrw golwg ar agwedd allweddol ar y Rhyfel Mawr: yr ymgyrch recriwtio. Yn ystod blwyddyn gyntaf y rhyfel, roedd digon o ddynion yn ymuno â'r lluoedd ond yn 1916, am y tro cyntaf yn hanes modern Prydain, bu'n rhaid cyflwyno gorfodaeth filwrol. Dewch i gael cipolwg ar y dulliau recriwtio a ddefnyddiwyd yng Nghymru, y wleidyddiaeth y tu ôl iddynt a'r trefniadau a roddwyd ar waith ar gyfer gorfodaeth filwrol.

**Mynediad yn rhad ac am ddim drwy archebu tocyn drwy'r wefan uchod. Digwyddiad a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg – bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.**

---

### 3, 10, 17 a 24 Gorff, 6:30yh nes 8:30yh

**Paentio'r Gorffennol - Gweithdy i Oedolion**

Amgueddfa ac Oriel Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful

visitmerthyr.co.uk

Dyma gyfle i oedolion baentio rhan o furlun a fydd yn darlunio'r rôl a chwaraeodd Merthyr yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Bob dydd Iau ym mis Gorffennaf, bydd sesiynau gweithdy'n cael eu cynnal lle bydd arddulliau paentio poblogaidd yn ystod cyfnod y rhyfel yn cael eu cyflwyno. Yna, bydd y sgiliau hynny'n cael eu defnyddio i greu darn enfawr o waith celf a fydd i'w weld yn yr arddangosfa *100 Mlynedd yn Ôl* yng Nghastell Cyfarthfa.

Os hoffech chi ddysgu paentio neu ddysgu ffyrdd newydd o baentio, dyma'r gweithdy i chi.

**Bydd angen cadw lle/Cost y gweithdy fydd £40 y pen/ Rhaid eich bod yn gallu dod i bob sesiwn.**

---

### 12 Gorff 2014, 2:00yp

**Digwyddiad dan nawdd Cyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru - 'Ffydd yn y Ffosydd: Dyddiadur Cynddelw Williams'**

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

llgc.org.uk/cy

Darlith gan yr Athro Densil Morgan (Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant) am ddyddiadur y Parchedig Cynddelw Williams MC, a ysgrifennodd mewn modd mor ingol am erchyllterau'r Rhyfel Mawr.

**Mynediad drwy archebu tocyn (£3.50, neu'n rhad ac am ddim i Gyfeillion y Llyfrgell) drwy'r wefan uchod. Digwyddiad a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg – bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.**

## 19 Gorff 2014, 11:00am-3:00yp

### Diwrnodau agored yn Yr Ysgwrn

Yr Ysgwrn, Trawsfynydd

cymruncofio.org

Bydd y diwrnodau agored yn gyfle i'r cyhoedd ymweld â'r Ysgwrn heb fod angen gwneud trefniadau ymlaen llaw – galwch draw am dro! Cynhelir y diwrnodau agored eleni ar y dyddiad canlynol:

Gorffennaf 19eg: 11-3pm gyda sgwrs gan Ifor ap Glyn ar 'Leisiau'r Rhyfel Mawr' am 1pm.

## 19 Gorff 2014 - 8 Chwef 2015

### Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru - Pabi'r Coffáu

Amgueddfa Cymru: Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon

amgueddfacymru.ac.uk

Arddangosfa sy'n ymchwilio i'r cysylltiad rhwng defnydd diwylliannol o'r pabi at ddibenion coffáu a gwyddor bioamrywiaeth.

## 21 Gorff 2014 - 26 Meh 2015

### Amgueddfa Lechi Cymru - Cychwyn Cofio!

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Lechi Cymru

amgueddfacymru.ac.uk

Sut ydyn ni'n cofio rhyfel, a sut y dylem ni ei goffáu? O weithredoedd personol megis gosod blodau wrth fedd neu lun ar y wal, i gofebion cyhoeddus megis cofgolofn pentref neu wasanaeth mewn Eglwys – mae'r weithred o gofio'n ein cyffwrdd ni oll.

Drwy'r arddangosfa, byddwn yn eich gwahodd i rannu'ch atgofion a'ch syniadau chi am sut, a pham, y dylem gofio a choffáu.

## 22 Gorff 2014 - 18 Ion 2015.

### Dinas a Sir Abertawe - Abertawe a'r Rhyfel Mawr

Oriel 1, Amgueddfa Abertawe

cymruncofio.org

Arddangosfa sy'n darlunio Abertawe yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf 1914-1918. Bydd yr arddangosfa'n canolbwyntio ar straeon sawl unigolyn o Abertawe a fu'n ymwneud â'r Rhyfel Mawr. Yn ogystal â straeon y dynion a aeth i ymladd, bydd yr arddangosfa hefyd yn datgelu brwydrau'r menywod a oedd ar ôl. Bydd yn rhoi sylw i'w cyfraniad nhw i'r ymdrech i ennill y rhyfel, a bydd hefyd yn archwilio straeon y gwrthwynebwyr cydwybodol.

## 23 Gorff a 30 Awst 1:00yp - 3:00yp

### Amgueddfa Lechi Cymru - Diwrnodau Agored

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Lechi Cymru

amgueddfacymru.ac.uk

Wrth i ni baratoi ar gyfer arddangosfa fawr yn 2016 am gofeb unigryw i chwarelwyr o Ddyffryn Nantlle fu farw yn y Rhyfel Mawr, dymuna Amgueddfa Lechi Cymru eich gwahodd i rannu'ch atgofion a'ch syniadau chi am sut, a pham, y dylem gofio a choffáu a chewch greu eich pabi eich hun.

## 24 Gorff, 1:00yp - 4:00yp

### Gweithdy Gwneud Medalau'r Rhyfel Byd Cyntaf

Amgueddfa Abertawe

swanseamuseum.co.uk

Cyfle i wneud medalau'r Rhyfel Byd Cyntaf gyda Lucy Donald.

**Grŵp oedran: 4-12**
**Yn rhad ac am ddim.**

## 27 Gor 2014, 12:00yp - 4:00yp

### Cadw - Gŵyl Archaeoleg - Hanes Hylaw

Cae'r Gors - Rhosgadfan, Gwynedd

cadw.wales.gov.uk

Dewch â'r teulu i ddysgu am eich treftadaeth trwy roi cynnig ar grefftau hynafol, dehongli hanes trwy gelf, neu ddysgu gan arbenigwyr hanes.

**Bydd y digwyddiad yn coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Mawr wrth i ni droi'r clociau canrif yn eu hôl.**

Mae'r holl weithgareddau'n rhad ac am ddim, ond mae costau mynediad.

**Oedolyn – £3.50**

**Teulu – £11.00***

**Pensiynwyr, myfyrwyr a phlant o dan 16 – £3.00**

***Mynediad i 2 oedolyn a phob plentyn dan 16 oed.**

## 30 Gorff 2014, 6:00yh

### 'Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf' gan yr awdur Gwyn Jenkins

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

llgc.org.uk/cy

Bydd yr awdur Gwyn Jenkins yn sôn am ei lyfr newydd *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf*. Mae'r llyfr hwn

(llun yn y cefndir) Milwyr yng Ngwersyll Milwrol Trawsfynydd, Gogledd Cymru. Trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru

yn croniclo profiadau'r Cymry yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'n cynnwys straeon am filwyr, morwyr, nyrsys, menywod a weithiai mewn ffatrïoedd arfau, a heddychwyr o bob cwr o Gymru. Dyma'r unig lyfr 'poblogaidd' cynhwysfawr yn Gymraeg am hanes y Rhyfel Byd Cyntaf.

**Mynediad yn rhad ac am ddim drwy archebu tocyn drwy'r wefan uchod. Digwyddiad a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.**

---

### 31 Gorff, 1:00yp - 4:00yp

### Gweithdy cychod ac awyrennau origami'r Rhyfel Byd Cyntaf

Amgueddfa Abertawe

swanseamuseum.co.uk

Cyfle i greu cychod ac awyrennau origami'r Rhyfel Byd Cyntaf gyda Ruth McLeese.

**Grŵp oedran: 4-12**
**Yn rhad ac am ddim.**

---

## Awst

### 2 Awst, 10:00yb - 1:00yp a 2:00yp - 4:00yp

### Gweithdy Pypedau 'War Horse'

Amgueddfa Abertawe

swanseamuseum.co.uk

Cyfle i greu pypedau cysgod yn seiliedig ar 'War Horse' gyda Lucy Donald at ddiben adrodd stori, a'u defnyddio wedyn mewn theatr bypedau yn y gweithdy cyfareddol hwn ar gyfer y teulu cyfan.

**Grŵp oedran: 4-16**
**Yn rhad ac am ddim.**

---

### 2 Awst 2014, 2:00yp-3:00yp

### Sgwrs gan Dr John Alban - Ffoaduriaid Belgaidd a Chymuned Felgaidd Abertawe

Yr Ystafell Ddarganfod (Llawr Cyntaf), Llyfrgell Ganolog Abertawe

cymruncofio.org

Pan ddechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf, gwelodd Prydain y nifer fwyaf erioed o ffoaduriaid yn cyrraedd ei glannau wrth i 250,000 o bobl o Ffrainc a Gwlad Belg ffoi rhag yr Almaenwyr a oedd yn nesáu. Daeth llawer o ffoaduriaid i Abertawe i ymuno â'r gymuned alltud o weithwyr metel o Wlad Belg a oedd eisoes yno. Bydd Dr John Alban, sy'n Uwch-ddarlithydd Anrhydeddus yn yr Ysgol Hanes ym Mhrifysgol East Anglia ac a arferai fod yn Archifydd Sirol Norfolk, yn archwilio'r rhan a chwaraeodd y Belgiaid ym mywyd Abertawe, a'r modd yr oeddent yn symbol o'r gwrthdaro a ddechreuodd 100 mlynedd yn ôl.

---

### 2 - 3 Awst 2014

### Penwythnos Porth-cawl a Chanmlwyddiant y Rhyfel Mawr

Lleoliadau ar draws Porth-cawl, gan gynnwys Amgueddfa Porth-cawl, John Street, The Y Centre

porthcawlandthegreatwar.com

Dychmygwch dref Porth-cawl ym 1914. Nod y digwyddiad hwn yw mynd â phrif stryd siopa Porth-cawl yn ôl i 1914, gyda help masnachwyr lleol ac arddangosfa newydd yn Amgueddfa Porthcawl. Yn ogystal, bydd The Y Centre yn cynnal arddangosfeydd a sgyrsiau gan gymdeithasau hanes lleol ac ysgolion lleol. At hynny, bydd Cymdeithas Hanes Morgannwg yn darparu cymorth ar-lein i helpu pobl i ymchwilio i hanes eu teuluoedd nhw.

---

### 2 - 3 Awst 2014, 10:30yb-4:30yp

### Cadw - Coffáu dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf

Castell Caerffili

cadw.wales.gov.uk

Bydd arddangosfa fyw o hanes yn cael ei chynnal yng Nghastell Caerffili, a fydd yn portreadu gwersyll yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd trefn arferol y gwersyll o ymarfer a gorymdeithio'n dod i ben yn sydyn pan fydd y rhyfel yn dechrau. Cynhelir cyfres o weithgareddau eraill ar y cyd â'r digwyddiad hwn. Bydd cyfle i archwilio'r ffrynt cartref, hanes menywod yn y fyddin ac ym maes diwydiant, a straeon y gwrthwynebwyr cydwybodol.

- Bydd arddangosfa o arteffactau a deunydd ymchwil yn y neuadd fawr
- Bydd barddoniaeth yn cael ei darllen
- Bydd cyfle i wrando ar gerddoriaeth gan fand milwrol
- Bydd cwrs ymosod milwrol wedi'i greu ar eich cyfer.

**Gyda chymorth Amgueddfa Cyffinwyr De Cymru a Byddin Prydain.**

---

## 2-3 Awst 2014, 11:00yb, 12:00yp, 1:00yp a 2:00yp

### Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd - Condensed Histories: Sioeau'r Rhyfel Byd Cyntaf

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

amgueddfacymru.ac.uk

Trwy hiwmor, storïa, jyglo, hud a mwy dyma ffordd newydd o hidlo hanes gan Greg Chapman.

**Teuluoedd/Am ddim.**

---

## 2 - 17 Awst 2014, 11:00yb - 4:00yp

### Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd - Gweithdy i'r Teulu: Posteri Propaganda

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

amgueddfacymru.ac.uk

Defnyddio deunyddiau'r Rhyfel Byd Cyntaf i'ch ysbrydoli i greu poster yn yr un arddull â'r posteri propaganda.

**Teuluoedd/Am ddim/ Gweithgaredd galw heibio, ond nifer benodol o lefydd fydd ar gael.**

---

## 2 Awst 2014 - Haf 2015

### Ein Dyletswydd Ni: Y Rhyfel Byd Cyntaf a Bwrdeistref Sirol Caerffili

Amgueddfa Tŷ Weindio, Tredegar Newydd

caerphilly.gov.uk/windinghouse

I goffáu canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, bydd yr arddangosfa bwysig hon yn archwilio sut yr effeithiodd y Rhyfel ar ddynion, menywod a phlant ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. O brofiadau'r dynion lleol a fu'n ymladd ar Ffrynt y Gorllewin a thu hwnt, i brofiadau pawb a arhosodd ar y ffrynt cartref yn ne Cymru, bydd yr arddangosfa'n archwilio effaith y Rhyfel ar yr ardal leol drwy wrthrychau, delweddau a deunydd ffilm a sain a fydd wedi'u curaduro yn ofalus.

**Mynediad yn rhad ac am ddim.**

---

## 2 Awst 2014 - 4 Ion 2015

### Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd - Cof Cenedl - Straeon Lleol

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

amgueddfacymru.ac.uk

Mae'r arddangosfa hon yn ystyried sut gall gwrthrychau o gasgliadau amgueddfa helpu pobl ifanc ac artistiaid i ymateb i'r Rhyfel Byd Cyntaf trwy weithdai digidol creadigol.

---

## 2 Awst 2014 - 7 Ion 2015

### Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd - Brwydrau'r Cymry

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

amgueddfacymru.ac.uk

Portreadau o bobl, y lluoedd arfog, gwleidyddion a theuluoedd cyfan, a welodd newid byd oherwydd y Rhyfel Byd Cyntaf.

**Am ddim.**

---

## 2 Awst 2014 - 7 Ion 2015

### Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd - Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

amgueddfacymru.ac.uk

Dyma arddangosfa o'r 66 gwaith ym mhortffolio printiau 1917 *The Great War: Britain's Efforts and Ideals*, a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Wybodaeth.

Rhannwyd y lithograffau'n ddau gategori 'Ideals' ac 'Efforts', ac maent yn rhoi braslun diddorol i ni o amcanion rhyfel Prydain, y gweithgarwch milwrol ac ymdrechion y Ffrynt Cartref.

Cyfrannodd rhai o artistiaid Prydeinig enwocaf yr oes at y gyfres, gan gynnwys Augustus John, Frank Brangwyn, William Rothenstein a C. R. W Nevinson.

**Am ddim.**

---

## 3 Awst 2014, 10:00yb

### Shoulder to Shoulder with all who Serve - gorymdaith gyda'r Lleng Brydeinig Frenhinol

Cwrdd yn y Maes Parcio i Fysiau yn Llandudno

cymruncofio.org

Ymunwch â'r Lleng Brydeinig Frenhinol ar orymdaith drwy Landudno i goffáu canmlwyddiant dechrau'r rhyfel a myfyrio yn ei gylch. Bydd yr orymdaith yn cynnwys cyn-filwyr, aelodau o'r Lluoedd Arfog, a chynrychiolwyr gwasanaethau cyhoeddus a mudiadau ieuenctid. Yn 1914, gorymdeithiodd llawer o ddynion ifanc i'w canolfannau recriwtio y tu ôl i'w seindorf leol. Er mwyn atgoffa pobl am hynny, bydd Seindorf Llandudno a Seindorf Tref Bwcle yn arwain yr orymdaith i Gofeb Ryfel y dref.

(llun yn y cefndir) Adrannau Gynnau Lewis 6ed Bataliwn y Gatrawd Gymreig. © Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol

**Rhowch wybod i'r trefnwyr os hoffech chi neu os hoffai sefydliad neu fudiad gymryd rhan (mae canllawiau i'w gweld ar y wefan).**

### 3 Awst 2014, cychwyn am 2:00yp

**Gwasanaeth Ecwmenaidd Awyr Agored**

Parc Caerfyrddin

cymruncofio.org

Gwasanaeth Coffa Crefyddol a fynychir gan gyn-Archesgob Caergaint – Yr Arglwydd Williams o Ystumllwynarth, a chyn-Bennaeth y Staff Amddiffyn – Y Cadlywydd yr Arglwydd Guthrie, Archesgob Caerdydd, Esgob Menevia, Esgob Tyddewi, a chynrychiolwyr y Synagog Iddewig yn Abertawe.

### 4 Awst 2014, cychwyn am 10:45yb

**Gwylnos Cymuned Trewalchmai**

Cofeb Pentref Gwalchmai, Ynys Môn

cymruncofio.org

Gwasanaeth coffa ar ffurf gwylnos lle bydd cannwyll yn cael ei diffodd am 11:00yb.

### 4 Awst 11:00yp

**Gwylnos yng ngolau cannwyll i goffáu dechrau'r rhyfel.**

Ledled Cymru

cymruncofio.org

Bydd digwyddiadau'n cael eu cynnal ledled Cymru i nodi'r ffaith bod digwyddiadau i goffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yn dechrau'n swyddogol. Gyda'r nos hefyd, bydd unigolion a chymunedau ledled Cymru yn cael eu hannog i ddiffodd canhwyllau neu oleuadau am 11:00pm i goffáu'r adeg pan ymunodd Prydain â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae manylion i'w gweld ar ein gwefan uchod.

### 4 - 8 Awst 2014

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol.**

Stondin 401-405, Yr Eisteddfod Genedlaethol, Llanelli

llgc.org.uk/cy

Bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau yn yr Eisteddfod Genedlaethol i goffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r Llyfrgell yn gobeithio arddangos cadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1914 – yr unig Eisteddfod Genedlaethol fodern sydd wedi'i chanslo oherwydd rhyfel.

**Dydd Llun 4 Awst 12:00pm**
Dangos ffilm *Hedd Wyn* (yn dibynnu ar hawlfraint).

**Dydd Llun 4 Awst 12:30pm**
Trafodaeth ynglŷn â'r Rhyfel Byd Cyntaf gyda Dr Gethin Matthews (Prifysgol Abertawe) ac Aled Eirug, gyda Lyn Lewis Dafis yn cadeirio.

**Dydd Iau 7 Awst 2:30pm**
Casgliad y Werin Cymru yn cynnal digwyddiad ynglŷn â'r Rhyfel Byd Cyntaf yng nghwmni Cynghorydd Arbenigol y Prif Weinidog ar y Rhyfel Byd Cyntaf a Llywydd y Llyfrgell, Yr Athro Syr Deian Hopkin.

**Dydd Gwener 8 Awst 2:30pm**
Yr awdur Gwyn Jenkins yn sôn am ei lyfr diweddaraf *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf.*

### 4 Awst - 28 Medi 2014, yn ddyddiol 10:00yb-5:00yp, penwythnos 12:00yp-5:00yp.

**100 Mlynedd yn Ol: Merthyr Tudful a'r Rhyfel Mawr**

Amgueddfa ac Oriel Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful

visitmerthyr.co.uk

Arddangosfa ynghylch sut yr effeithiodd y Rhyfel Byd Cyntaf ar drigolion Merthyr Tudful a'r dref ei hun. Bydd darluniau, ffotograffau, gwrthrychau a lluniau fideo, ymhlith pethau eraill, yn cael eu defnyddio i adrodd straeon pobl Merthyr ar ffrynt y frwydr ac ar y ffrynt cartref.

### 5 Awst 2014 7:30yh

**Cymdeithas Ffrynt y Gorllewin - 'Old Soldiers Never Die'**

Capel Salem, Blaenau, Gwent

cymruncofio.org

Noson o ddarlleniadau a cherddoriaeth i goffáu diwrnod llawn cyntaf y rhyfel, a'r diwrnod y gadawodd Frank Richards i fynd i'r rhyfel.

**Trefnir gan gangen Gwent o Gymdeithas Ffrynt y Gorllewin.**

### 5 - 6 Awst 2014, gyda sesiynau o 11:00yb nes 1:00yp a 2:00yp nes 4:00yp

**Creu Pabi'r Coffáu**

Amgueddfa ac Oriel Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful

visitmerthyr.co.uk

Galwch heibio i'r gweithdy rhad ac am ddim hwn i greu pabi. Yna, rhowch enw un o'r milwyr o Ferthyr a fu farw arno, a rhowch

ef ar gynfas wrth ymyl pabïau eraill. Yn dilyn y gweithdy, bydd y cynfas yn cael ei arddangos yn yr arddangosfa *100 Mlynedd yn Ôl.*

**Mae rhagor o wybodaeth am brosiect y gofeb a dadorchuddio'r gofeb i'w gweld yn yr erthygl.**

## 7 Awst, 1:00yp - 4:00yp

### Gweithdy Cartwnau'r Rhyfel Byd Cyntaf

Amgueddfa Abertawe

swanseamuseum.co.uk

Gweithdy Cartwnau'r Rhyfel Byd Cyntaf gyda Lucy Donald. Bydd yn cynnwys cartwnau gan J.M. Staniforth.

**Grŵp oedran: 8-16**
**Yn rhad ac am ddim.**

## 9-10 Awst 2014, 11:00yb, 12:00yp, 1:00yp a 2:00yp

### Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd - Condensed Histories: Sioeau'r Rhyfel Byd Cyntaf

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

amgueddfacymru.ac.uk

Trwy hiwmor, storïa, jyglo, hud a mwy dyma ffordd newydd o hidlo hanes gan Greg Chapman.

**Teuluoedd/Am ddim.**

## 16 Awst 2014

### Dadorchuddio cofeb i'r Cymry yn Fflandrys, a gwasanaeth cysegru'r gofeb.

Langemark, Fflandrys, Gwlad Belg

welshmemorialflanders.co.uk

Bydd y gofeb i holl bobl Cymru a wasanaethodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn cael ei dadorchuddio ar y diwrnod hwn. Cysylltwch â'r trefnwyr os hoffech chi fynychu'r digwyddiad, drwy ddefnyddio'r wefan uchod.

## 16-17 a 23-24 Awst, 11:00yb-1yp a 2yp-4yp

### Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd - Anfon Cysur i Faes y Gad: Gweithdai Rhyfel Byd Cyntaf i Deuluoedd

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

amgueddfacymru.ac.uk

Drwy gydol y Rhyfel Byd Cyntaf, cafodd menywod eu hannog i weu a gwnïo pethau i'w hanfon mewn parseli i'r milwyr oedd dramor. Dewch i weld cynnwys parseli tebyg, gwisgo atgynyrchiadau o rai o'r eitemau a rhoi tro ar hen beiriant gweu sanau a pheiriant gwnïo.

**Teuluoedd/Am ddim/ Gweithgaredd galw heibio, ond nifer benodol o lefydd fydd ar gael.**

## 17 Awst 2014, 11:00am-3:00yp

### Diwrnodau agored yn Yr Ysgwrn

Yr Ysgwrn, Trawsfynydd

cymruncofio.org

Bydd y diwrnodau agored yn gyfle i'r cyhoedd ymweld â'r Ysgwrn heb fod angen gwneud trefniadau ymlaen llaw – galwch draw am dro!

## 20 Awst 2014, 1:00yp

### Darlith Hallstatt - Ifor ap Glyn "Pam na ddylen ni ganu yn y Rhyfel Mawr hwn?" Canu yn ystod y rhyfel - persbectif Cymreig.

Gŵyl Machynlleth 2014

momawales.org.uk

Wedi'i ysbrydoli gan araith a draddodwyd gan Lloyd George yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1916, bydd Ifor ap Glyn yn amlinellu cynsail y safbwynt mai peth amhriodol oedd canu ar adeg rhyfel, yr ymdrechion a wnaed i wrthdroi hyn drwy gyfieithu caneuon gwladgarol addas fel 'Tipperary' i'r Gymraeg a sut roedd emynau Cymraeg yn aml yn fwy poblogaidd o lawer ymysg dynion o ddiwylliant capelyddol.

**Yn Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd i'r Saesneg.**

**Bydd angen cadw lle: £6 i oedolion, £3 i blant.**

## 24 Awst 2014, 12:00yp

### Teithiau Cook - Sgwrs am ddim

Gŵyl Machynlleth 2014

momawales.org.uk

Naddu a Bwrw – Cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf mewn Carreg ac Efydd.

**Mae'n bosibl y bydd angen cadw lle.**

(llun yn y cefndir) Dynion Bataliwn 1af Morgannwg, 265ed Brigâd (Howitzer), y Magnelwyr Maes Brenhinol, y 53fed Adran (Gymreig), tua 1916. Trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru

### 24 Awst 2014, 1:00yp (Rhan 1) a 7:30yp (Rhan 2)

**1914-18: Y Rhyfel Byd Cyntaf mewn Darnau - Rhan 1 (1914) a Rhan 2 (1915-1918)**

Gŵyl Machynlleth 2014

momawales.org.uk

Diwrnod i gofio a choffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Cerddoriaeth a gyfansoddwyd ar ddwy ochr y brwydro yn ystod blynyddoedd y rhyfel mewn rhaglen sydd wedi'i churadu a'i chasglu gan y feiolinydd Katharine Gowers. Yn ymuno â hi bydd dau o'i chyfoedion neilltuol, Adrian Brendel ac Alasdair Beatson, gydag un o newyddiadurwyr a darlledwyr mwyaf adnabyddus y BBC, Julia Somerville.

**Bydd angen cadw lle: £12 i oedolion, £3 i blant (Rhan 1)**

**£20 i oedolion, £3 i blant (Rhan 2).**

### 31 Awst 2014, 2:00yp

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd - Cynaeafu'r Weirglodd**

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

amgueddfacymru.ac.uk

Helpwch ni i gynaeafu'r weirglodd a rhoi hadau mewn pecynnau i greu rhagor o weirgloddiau trefol o Fôn i Fynwy.

**Teuluoedd/Am ddim.**

## Medi

### 1 Medi - 3 Hyd 2014, 9:00yb-1:00yp a 2:00yp-5:00yp Llun i Sadwrn, a hyd 7:00yh ar ddydd Mawrth a dydd Iau.

**Milwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn y Rhyfel Byd Cyntaf**

Canolfan Hanes Lleol a Theuluol Sunnyside, Pen-y-bont ar Ogwr.

cymruncofio.org

Arddangosfa o ddata a gasglwyd o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

### 3 Medi 2014, 1:15yp

**'Rhyfel Mawr Cynan' - gan yr Athro Gerwyn Wiliams (Prifysgol Bangor)**

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

llgc.org.uk/cy

Ganrif ers y Rhyfel Mawr, mae'r sgwrs hon yn bwrw golwg o'r newydd ar ymateb Cynan (Albert Evans-Jones), un o feirdd mwyaf poblogaidd Cymru, i'r rhyfel. Mae'n ystyried effaith y rhyfel ar ei fywyd a'i waith.

**Mynediad yn rhad ac am ddim drwy archebu tocyn drwy'r wefan uchod. Digwyddiad a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg – bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.**

### 6 Medi - 26 Hyd 2014

**Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) ac Amgueddfa Pont-y-pŵl - arddangosfa Gobaith yn y Rhyfel Mawr**

Amgueddfa Pont-y-pŵl, Sir Fynwy

cymruncofio.org

Bydd yr arddangosfa yn mynd o amgylch amgueddfeydd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, gorsafoedd badau achub a'r amgueddfeydd sy'n bartneriaid i'r Sefydliad, a bydd yn anrhydeddu dewrder a phenderfyniad y sawl a fu'n achub bywydau yn ystod cyfnod o wrthdaro enbyd. Mae cymunedau wedi dod at ei gilydd i greu arddangosfeydd rhyngweithiol a gwaith celf diddorol.

Dyma ffordd ddelfrydol i deuluoedd a phlant ifanc ddysgu am waith rhyfeddol gwirfoddolwyr Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

### 10 Medi 2014, yn cychwyn am 6:30yh

**Merthyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf - Sgwrs ar eich eistedd**

Amgueddfa ac Oriel Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful

visitmerthyr.co.uk

Bydd y sgwrs hon yn archwilio'n fanwl sut dref oedd Merthyr Tudful pan ddechreuodd y Rhyfel, yn ystod y Rhyfel, ac yn dilyn y gwrthdaro mwyaf dinistriol yr oedd y byd wedi'i weld erioed.

**Bydd angen cadw lle/Yn rhad ac am ddim.**

## 12 Medi 2014, 11:00yb - 4:00yp

### Diwrnod Hanes Teuluol yng Nghastell Cyfarthfa

Amgueddfa ac Oriel Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful

visitmerthyr.co.uk

Bydd Cymdeithas Hanes Teuluol Morgannwg yn cynnal diwrnod lle gallwch alw heibio gyda'ch straeon a'ch eitemau teuluol sy'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd help wrth law i'ch cynorthwyo i ddechrau ymchwilio i'r rhan a chwaraeodd eich teulu chi yn y rhyfel.

---

## 13 Medi 2014, 10:00yb -1:00yp a 2:00yp-5:00yp.

### Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru - Enamel Eithriadol

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru (Caerllion)

amgueddfacymru.ac.uk

Fel rhan o'n harddangosfa dros dro, *Equus: Ceffylau a Rhyfel*, bydd y grefftwraig emwaith Sophie Buckingham yn cynnal gweithdy enamlo. Dewch i roi tro ar greu eich addurn ceffyl eich hun.

Roedd ceffylau'n rhan hollbwysig o ryfela Rhufeinig, gan aros felly tan yr Ail Ryfel Byd. Mae llawer o'r gwrthrychau a gaiff eu canfod ar safle caer yn ymwneud â harneisiau ceffylau. Roedd rhai'n blaen, ond roedd eraill yn gain iawn ac wedi'u haddurno ag enamel. Cafodd harnais wedi'u haddurno'n hardd ag enamel ei ganfod ym Mrynbuga, dafliad carreg o Gaerllion ac mae bellach yng nghasgliad yr Amgueddfa.

**Oedolion/£10 y pen, gan gynnwys y deunyddiau./ Archebwch ymlaen llaw: (029) 2057 3550.**

---

## 14 Medi 2014, 11:00am-3:00yp

### Diwrnodau agored yn Yr Ysgwrn

Yr Ysgwrn, Trawsfynydd

cymruncofio.org

Bydd y diwrnodau agored yn gyfle i'r cyhoedd ymweld â'r Ysgwrn heb fod angen gwneud trefniadau ymlaen llaw – galwch draw am dro! Cynhelir y diwrnodau agored eleni ar y dyddiad canlynol:

Medi 14eg: 11-3pm. Bydd hefyd cyfle i ymweld ag Egwlys Sant Madryn yn ystod y dydd.

---

## 16 Medi 2014, 1.05yp

### Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd - Tu ôl i'r Llenni: Cadwraeth Papur

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

amgueddfacymru.ac.uk

Ymunwch ag Emily O'Reilly i glywed am y gwaith cadwraeth ar y 66 lithograff yn yr arddangosfa *Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf.*

**Am ddim.**

---

## 23 Medi 2014, 1.05yp

### Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd - Tu ôl i'r Llenni: Archaeoleg

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

amgueddfacymru.ac.uk

Cyfle i archwilio medalau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn yr Ystafell Astudio Arteffactau.

**Bydd angen cadw lle/ Yn rhad ac am ddim.**

---

# Hydref

## 11 Hyd 2014 - 15 Maw 2015

### Amgueddfa Genedlaethol y Glannau - Diwydiant Cymru a'r Rhyfel Mawr

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe

amgueddfacymru.ac.uk

Archwilio effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar ddiwydiant yng Nghymru, a chyfraniad y diwydiannau hynny at y rhyfel.

---

## 20 Hyd - 17 Tach 2014

### Coffáu ein harwyr' a 'Rhai pethau yr ydym yn anghofio eu coffáu'

Archifau Gorllewin Morgannwg, Abertawe

swansea.gov.uk

Arddangosfa mewn dwy ran.

Cofiant cryno ar gyfer chwech o arwyr y Rhyfel Byd Cyntaf yw *Coffáu ein harwyr* (pedwar o Abertawe, un o Bontardawe ac un o Bort Talbot). Enillodd tri ohonynt Groes Fictoria, enillodd dau ohonynt y Groes Filwrol ac enillodd un ohonynt fedal Croix de Guerre.

Mae'r arddangosfa yn annog ymwelwyr i ystyried beth yw arwr a pham y mae arwyr yn bwysig i'n hunanddelwedd.

Mae'r ail arddangosfa, sef *Rhai pethau yr ydym yn anghofio eu coffáu,* yn edrych ar y rhyfel mewn ffordd wahanol ac yn ystyried rhai o'i agweddau llai cyfarwydd. Mae'r agweddau hynny'n cynnwys cyfraniadau Byddin yr India, rôl menywod, y modd y cafodd gwrthwynebwyr cydwybodol eu trin, ffoaduriaid o Wlad Belg yn Abertawe, ac effeithiau'r Rhyfel ar y Dwyrain Canol.

(llun yn y cefndir) Milwyr y 38ain Adran (Gymreig) yn Ffrainc yn 1916. © Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol

### 27 Hyd - 9 Tach 2014, Drwy'r Dydd

**Gŵyl Dylan Thomas**

Canolfan Dylan Thomas, Abertawe

dylanthomas.com

Bydd Gŵyl Dylan Thomas, sy'n Ŵyl flynyddol a gynhelir am y 17eg flwyddyn, yn cynnwys amrywiaeth helaeth o ddigwyddiadau a gwesteion arbennig. Bydd hefyd yn cynnwys gŵyl benwythnos a fydd yn canolbwyntio ar gerddi rhyfel.

## Tachwedd

### 8 Tach 2014

**Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru - Gwasanaeth Coffa**

Amgueddfa Cymru: Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

amgueddfacymru.ac.uk

Gwasanaeth blynyddol wrth ymyl Cofeb Ryfel Trecelyn i goffáu'r milwyr a fu farw yn ystod y ddau Ryfel Byd.

### 8 - 9 Tach 2014, 11:00yb nes 5:00yp

**Hen Laneirwg yn coffáu Rhyfel Mawr 1914-18**

Hen Laneirwg, Caerdydd

cymruncofio.org

Mae'r arddangosfa wedi'i seilio ar effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar gymuned a oedd bryd hynny'n gymuned wledig.

Cynhelir arddangosfa yn Neuadd y Pentref ar 8 – 9 Tachwedd. Ar 9 Tachwedd yn unig cynhelir Gwasanaeth Coffa yn Eglwys Llaneirwg, Tŷ'r Winch Road ac yn dilyn y gwasanaeth bydd gorymdaith i'r Gofeb Ryfel leol, gan ddechrau am 11:00yb.

**Cefnogir gan Gymdeithas Hanes Tredelerch a Llaneirwg.**

### 13 - 14 Tach 2014, 9:00yb -5:00yp

**Cynhadledd Diwylliant Gweledol y Rhyfel Byd Cyntaf**

Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe

cymruncofio.org

Digwyddiad deuddydd a fydd yn seiliedig ar ymatebion gweledol i'r rhyfel. Bydd yn cynnwys papurau academaidd, stondinau, arddangosfeydd a sgyrsiau.

**I gofrestru diddordeb mewn mynychu'r digwyddiad, anfonwch e-bost at Dr Rhianydd Biebrach: BiebrachR@cardiff.ac.uk**

### 15 Tach 2014, 10:00yb - 5:00yp

**Cymdeithas Ffrynt y Gorllewin - Gwent yn y Rhyfel Mawr**

Y Neuadd Ymarfer, Cas-gwent

cymruncofio.org

Caiff ysgol ddydd ei chynnal gan gangen Gwent o Gymdeithas Ffrynt y Gorllewin, lle bydd siaradwyr amrywiol yn archwilio'r rôl a chwaraeodd pobl Gwent yn y Rhyfel Mawr.

Am y digwyddiadau diweddaraf i goffáu'r Canmlwyddiant ewch i dudalen 'Digwyddiadau' www.cymruncofio.org



(llun yn y cefndir) Dynion Bataliwn 1af Morgannwg, 265ed Brigâd (Howitzer), y Magnelwyr Maes Brenhinol, y 53fed Adran (Gymreig) ar gefn camelod, tua 1917.
Trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru